**Cyf: EUR-02-01 (min)**

# Pwyllgor ar Faterion Ewropeaidd

## COFNODION

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 4 Ebrill 2001 | |
| **Amser:** | 9.00 am | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Rhodri Morgan (Cadeirydd) | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| | Mick Bates | Dem Rhydd: Sir Drefaldwyn |
| | Nicholas Bourne | Ceidwadwyr: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| | Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| | Val Feld | Llafur: Dwyrain Abertawe |
| | Jonathan Morgan | Ceidwadwyr: Canol De Cymru |
| | Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| | Phil Williams | Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru |
| | George Wright | ECOSOC |
| | Jos Gallacher | Cyfarwyddwr, Canolfan Ewropeaidd Cymru |
| | **Swyddogion** | |
| | Gary Davies | Pennaeth, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |

| | |
|---|---|
| Damien O’Brien | Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel |
| Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**
**Papur: EUR-02-01 (p.1)**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod ac yn arbennig Jos Gallacher o Ganolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) a Xavier Gizard, Ysgrifennydd Cyffredinol y Gyngres Rhanbarthau Ymylol a Morwrol. Derbyniodd y Cadeirydd ymddiheuriadau gan Aelodau’r Cynulliad Ieuan Wyn Jones a John Griffiths, y Cynghorydd Brian Smith, Dr Rose D'sa, Catherine Eva a’r ASE Cymreig Jonathan Evans, Jill Evans, Eurig Wyn, a Glenys Kinnock. Nid oedd Eluned Morgan yn bresennol gan ei bod yn disgwyl genedigaeth ei phlentyn a datganodd yr aelodau eu dymuniadau gorau iddi ar yr achlysur hwn.

1.2 Roedd y Cadeirydd am bwysleisio sawl mater o’i adroddiad ysgrifenedig:

- Cyfarfod cyntaf y Cyd-Bwyllgor Gweinidogol ar Ewrop ar 1 Mawrth. Cyfranogodd y Cadeirydd drwy gyswllt fideo a chododd dri phrif bwynt:
- Lefel cyfranogiad Aelodau’r Cynulliad yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion. Pwysodd am lefel uchel o fynediad i’r cyfarfodydd hyn. Pwysodd ei gyd-gyfranogwyr yn y cyfarfod, David Trimble a Dennis Haughey, hefyd am hyn a chytunwyd yn anffurfiol ar system rota;
- Ni dderbyniwyd gwybodaeth ar y paratoadau ffisegol ar gyfer cyflwyno’r Euro eto. Byddai angen lefel uchel o ymwybyddiaeth o’r paratoadau mewn dwy ran o’r DU: Caint a Chymru lle y byddai pum porthladd cyn bo hir;
- Roedd Cymru am gymryd rhan yn y paratoadau ar gyfer yr Euro gan fod gweithgynhyrchu yn dioddef ar hyn o bryd yn sgîl cyfradd gyfnewid y bunt-euro.
- Bwriwyd rhywfaint o gysgod dros y trafodaethau a gynlluniwyd ar foderneiddio Ewrop yn economaidd ac yn gymdeithasol yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd yn Stockholm ar 23 a 24 Mawrth gan yr angen i drafod Clwy’r Traed a’r Genau a’r datblygiadau ym Macedonia yn y sesiwn gyhoeddus. Aeth gwaith rhagddo ar faterion eraill y tu ôl i’r llenni a chyflawnwyd y rhan fwyaf o amcanion y DU.
- Y prif fater i Gymru yn deillio o’r Ail Adroddiad Cydlyniad Ewropeaidd oedd beth fyddai’n digwydd i gronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar ôl 2006. Yn gyffredinol roedd gan y gwledydd newydd a oedd yn gwneud cais CMC is na Chymru ac roedd posibilrwydd efallai na fyddai Cymru bellach yn gymwys i gael arian neu y gallai fod trefniadau trosiannol lle y byddai taliadau yn gostwng yn raddol dros sawl blwyddyn. Disgwyliwyd i drafodaethau ar ddyfodol y cronfeydd strwythurol ddechrau ym mis Gorffennaf o dan lywyddiaeth Gwlad Belg a byddent yn debygol o

barhau am nifer o flynyddoedd. Byddai gan y Cynulliad ran i’w chwarae wrth ddatblygu safbwynt y DU ar y prif faterion yn deillio o’r adroddiad. Trefnwyd Fforwm Cydlyniad ym Mrwsel ar 21 a 22 Mai a byddai cynrychiolwyr o’r Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol yng Nghymru yn mynychu.

1.3 Ar 6 a 7 Ebrill, byddai Arlywydd Catalunya yn Sbaen, Jordi Pujol, yn ymweld â Chymru. Byddai’n llofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth diwygiedig rhwng Cymru a Chatalunya gyda’r Cadeirydd ar 6 Ebrill ac yn derbyn gradd anrhydeddus ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan ar 7 Ebrill.

1.4 Yn ddiweddar cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ei adroddiad ar ‘Cymru a’r Byd’. Ni wnaeth y Pwyllgor sylwadau uniongyrchol ar ymagwedd y Cynulliad tuag at hyrwyddo Cymru dramor gan nad oedd ganddo unrhyw awdurdod yn y maes hwn. Roedd nifer o faterion yn deillio o’r adroddiad o ran hyrwyddo Cymru a’i diwylliant a rôl yr Awdurdod Twristiaeth Prydeinig.

1.5 Gwahoddodd y Cadeirydd Val Feld i gyflwyno sylwadau ar ail gyfarfod Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd y DU (EC-UK) lle y bu’n cynrychioli’r Cynulliad ar 16 Mawrth. Dywedodd ei fod yn ymarfer defnyddiol wrth adeiladu dealltwriaeth rhwng y gwahanol bwyllgorau. Roedd Senedd yr Alban, Tŷ’r Cyffredin a Thŷ’r Arglwyddi, wrth gyflawni eu swyddogaethau archwilio, wrthi’n cynnal ymchwiliadau pwysig i faterion allweddol yn ymwneud â pholisi Ewropeaidd. Ymhlith y materion hyn roedd llywodraethu, cynrychiolaeth llywodraethau rhanbarthol yn ail siambr arfaethedig Senedd Ewrop a pholisi pysgodfeydd môr. Trafodwyd cydweithrediad rhwng y pwyllgorau yn y cyfarfod hefyd. Cytunwyd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ym Mrwsel fel y gallai Cynrychiolaeth Barhaol y DU ym Mrwsel (UKRep) gyflwyno gwybodaeth. Gan fod y Cynulliad wedi cynnig cynnal y cyfarfod nesaf, bydd yn trefnu’r cyfarfod ym Mrwsel.

1.6 Wrth drafod, cododd yr aelodau’r pwyntiau canlynol:

- Yn 1998, polisi Llywodraeth y DU oedd gwrthwynebu cynnydd yn lefel y cyfraniadau CMC a wnaed i Gymorth Rhanbarthol Ewropeaidd. Gallai cyfnod trosiannol olygu y byddai o fudd i Gymru sicrhau’r lefel uchaf bosibl o arian gan yr EU a hynny’n groes i safbwynt cynharach y DU. Nododd y Cadeirydd bod trafodaethau yn mynd rhagddynt o fewn Llywodraeth y DU ar y pwynt hwn ac y byddai pedair blynedd arall i sicrhau yr adlewyrchwyd safbwynt Cymru yn ddigonol.
- Codwyd y cwestiwn a fyddai canlyniadau andwyol o broblemau gyda chlwy’r traed a’r genau yn golygu na fyddai prosiectau o dan raglenni Ewropeaidd yn cael eu cwblhau yn unol â’r amserlenni angenrheidiol. Hysbyswyd y Pwyllgor fod y mater hwn yn cael ei drafod.
- Mewn ymateb i ymholiad, nododd Val Feld nad oedd cyfarfod cadeiryddion pwyllgorau’r DU wedi trafod beichiau gwaith cymaradwy yn uniongyrchol, er bod y pwyllgorau hynny â swyddogaeth archwilio wedi nodi bod anawsterau wrth reoli’r baich gwaith posibl a phennu blaenoriaethau. Roedd yn amlwg bod gwaith pwyllgor y Cynulliad wrth gydlynu gweithgareddau yn unigryw ymhlith y pwyllgorau.
- Mewn perthynas â’r adroddiad ‘Cymru a’r Byd’, gofynnwyd a oedd digon yn cael ei wneud i

hyrwyddo Cymru dramor, yn arbennig o ystyried y gwaith sy’n mynd rhagddo yn Iwerddon. Nododd y Cadeirydd y gellid priodoli dylanwad mawr Iwerddon ar y gymuned alltud enfawr yn America a chyfundrefn dreth ffafriol. Roedd proffil Cymru yn gymharol isel yn Iwerddon a’r Alban ac ni allem weithredu cymhellion tebyg megis newid y gyfundrefn dreth. Ymhlith y digwyddiadau gyda Bertie Ahearne ar Ddydd Gŵyl Dewi lansiwyd y gyfres o ddeunydd hyrwyddo "Wales. World Nation" a oedd yn cynnwys llyfr "bwrdd coffi" o ansawdd, pecyn i newyddiadurwyr, CD-Rom, a gwefan arloesol fel y byddai technoleg newydd yn cael ei defnyddio i hyrwyddo Cymru. Sefydlwyd grŵp ‘Brandio Cymru’ a chynhyrchwyd arweiniad ar hyrwyddo Cymru dair blynedd yn ôl; roedd y deunydd newydd yn seiliedig ar y gwaith hwnnw. Sefydlwyd grŵp cydlynu i sicrhau ymagwedd fwy cydlynus tuag at hyrwyddo Cymru dramor a bu wrthi’n llunio deunydd hyrwyddo newydd. Byddai amrywiaeth o fesurau eraill, gan gynnwys cyfres o ddigwyddiadau yng Nghymru a thramor. Roedd aelodau’r Grŵp yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, WEC, WLGA, y Cyngor Prydeinig a Chyngor Celfyddydau Cymru. Byddai’r deunydd hyrwyddo yn cael ei ddosbarthu i holl ganolfannau’r gwasanaeth diplomataidd Prydeinig a’r Cyngor Prydeinig ledled y byd.

- Ymholodd yr aelodau ynghylch swyddogaeth Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd na fyddai bellach yn cyfarfod tan fis Medi. Nododd Gary Davies bod ei swyddogaeth yn cael ei hadolygu ac y gofynnwyd i arweinwyr y pleidiau ddatgan eu barn. Disgwyliwyd yr ymatebion. Teimlai’r aelodau fod y Fforwm yn rhan bwysig o ymagwedd y Cynulliad tuag at faterion Ewropeaidd ac na ddylid ei wthio ymhellach i’r cyrion. Nododd y Cadeirydd y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru. Byddai’n canolbwyntio ar Faterion Gwledig a gwahoddwyd y Comisiynydd Franz Fischler i gymryd rhan. Roedd hyn yn amlygu pwysigrwydd y Fforwm.

1.7 Gwahoddodd y Cadeirydd Jos Gallacher i gyflwyno adroddiad ar ‘Wythnos Cymru’ ym Mrwsel a drefnwyd gan WEC i gyd-daro â Dydd Gŵyl Dewi. Nododd Jos Gallacher mai bwriad y dderbynwest ganolog oedd trawsnewid y berthynas rhwng Cymru a Brwsel. Roedd pwyslais cryf ar ddefnyddio celfyddyd gyfoes i gyflwyno gwahanol ddelwedd o Gymru fel lle gyda syniadau newydd a photensial. Roedd Cymru yn anelu at berthynas bartneriaeth gyda’r GE. Cynhaliwyd dau seminar ar ddatblygiad cynaliadwy a’r rhanbarth digidol er mwyn dangos cryfderau Cymru. Cafwyd anawsterau wrth hyrwyddo bwydydd Cymreig gan i’r digwyddiad gael ei gynnal wythnos ar ôl i allforio cig a chynnyrch cig gael ei wahardd. Defnyddiwyd cynnyrch lleol i ddangos ryseitiau Cymreig a chafwyd eitemau yn y wasg yn nodi sut y goresgynnwyd y problemau. Yn ôl yr adborth a gafwyd bu’r digwyddiad ar y cyfan yn llwyddiannus iawn a llwyddodd i godi proffil Cymru. Bwriadwyd cynnal digwyddiad tebyg yn 2002, o bosibl gyda llai o ddigwyddiadau ond â phroffil uwch iddynt.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Rhaglen Waith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd**
**Papurau: EUR-02-01(p.2a), EUR-02-01(p.2b), EUR-02-01(p.3a) a EUR-02-01(p.3b)**

2.1 Roedd Catherine Eva, Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, wedi darparu’r papur rhagarweiniol ar yr eitem hon ond yn anffodus ni allai fod yn bresennol yn y cyfarfod. Felly gofynnodd y Cadeirydd i Des Clifford, Pennaeth Swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel, amlinellu’r prif faterion a oedd yn berthnasol i’r eitem hon.

2.2 Nododd Des Clifford bod tair rhan i raglen waith y Comisiwn: cynlluniau newydd ar gyfer 2001, cynlluniau a gariwyd ymlaen o 2000 ac arwyddion cynnar o ran cynlluniau ar gyfer 2002. Roedd tri math o gynllun: cynigion deddfwriaethol yn amodol ar y cylch deddfwriaethol cyfan; mesurau nad oeddent yn ddeddfwriaethol a fyddai'n amodol ar ymarferion UE cyfan mewn datblygu polisi; a chynigion awtonomaidd a oedd o fewn pwerau cyfredol y Comisiwn. Roedd WEC wedi cynhyrchu strategaeth lobio ddrafft yn amlygu meysydd allweddol y rhaglen ar gyfer y 12 mis nesaf. Anfonwyd copi o'r rhaglen waith gyflawn at bob is-adran polisi yn y Cynulliad i'w hystyried gyda'r Gweinidog priodol ac i adrodd yn ôl drwy'r pwyllgorau pwnc. Un o'r elfennau allweddol oedd sicrhau bod y pwyllgor hwn yn llwyr ymwybodol o'r broses honno fel y gellid cyflawni ei nod cydlynu trosfwaol.

2.3 Nododd Jos Gallacher mai'r cwestiwn mawr i unrhyw un ym Mrwsel oedd pa elfen o'r rhaglen y dylid ei dilyn. Roedd WEC wedi ystyried y rhaglen waith yn fras iawn. Ym marn WEC, roedd 98 o faterion y dylai fod yn eu monitro ac yn cyflwyno adroddiad arnynt. Crynhowyd y nifer hon yn rhestr fyrrach ar gyfer lobio gan amrywiol bartneriaid WEC. Nid oedd hyn yn golygu bod eitemau ar gyfer lobio gweithredol yn bwysicach. Y cwestiwn oedd a fyddai'n bosibl gwneud hynny. Roedd meysydd fel yr adroddiad Cydlyniad, y 6ed Dogfen Fframwaith ar Ymchwil a Datblygiad a datblygiad Cynaliadwy, yn arbennig y diffiniad o fusnesau bach a chanolig eu maint, yn bwysig. Roedd gymaint o arian Ewropeaidd yn cael ei gyfeirio tuag at y busnesau hyn ac roedd materion o ran perchenogaeth cwmnïau, megis cwmnïau yn tarddu o brifysgolion, yn arbennig o bwysig yng Nghymru. Roedd yn anodd sicrhau bod y rhestr o faterion i'w dilyn yn y strategaeth yn gywir a byddai'n cael ei hadolygu drwy gydol y flwyddyn, yn arbennig gan y gallai gynnwys eitemau na fyddai'r Comisiwn yn gweithredu arnynt yn ystod y flwyddyn. Datblygwyd deg ar hugain o eitemau i lunio strategaeth lobio fanwl a oedd yn nodi buddiant Cymru, sut y gellid gweithredu a'r pwyntiau pwysau.

2.4 Teimlai'r aelodau bod y mater o lywodraethu yn hanfodol mewn perthynas â'r strategaeth gan y byddai'n penderfynu sut y gallwn ddylanwadu ar ac ba lefel. Nododd Des Clifford y byddai'n cynhyrchu papur safbwynt ar lywodraethu i'w ddadlau yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. Byddai'n nodi'r cefndir, yn nodi meysydd y gallai'r Pwyllgor eu hystyried o bosibl a meysydd y gellid eu hystyried, o bosibl, gan y Cynulliad yn ystod cyfarfod llawn. Disgwyliwyd i Bapur Gwyn y Comisiwn ar Lywodraethu gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf. Roedd elfen bwysicaf y Papur yn debygol o ymwneud â'r egwyddor o atodoldeb y byddai angen i ni ei gael yn iawn cyn ehangu. Roedd hyn yn rhan o ddadl tymor hwy a fyddai'n mynd rhagddi tan y Gynhadledd Rhyng-Lywodraethol yn 2004, fwy na thebyg o dan Lywyddiaeth yr Iseldiroedd.

2.5 Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a fyddai'r Papur Gwyn ar Lywodraethu yn dylanwadu ar y ffordd y byddai polisi amaethyddol a datblygu gwledig yn datblygu, nododd y Cadeirydd y byddai Cyngor y Gweinidogion yn penderfynu ar gydbwysedd y safbwyntiau i weld a fyddai newid ymagwedd. Roedd hyn yn rhan o'r Acquis Communitaire. Roedd safbwyntiau'n dechrau newid ond roedd gan wladwriaethau cenedlaethol safbwyntiau cryf iawn. Roedd angen ystyried safbwynt Cymru yng nghyd-destun agenda Prydain.

2.6 Roedd yr aelodau o'r farn fod y gyfres o bapurau a oedd yn gysylltiedig â'r eitem hon yn arbennig o

ddefnyddiol. Roedd y papur lobio yn nodi'n union beth oedd y pwyntiau o ddiddordeb. Gofynnodd yr aelodau, pan fyddai blaenoriaethau WEC a UKRep yn gwrthdaro o ran rhaglen waith y Comisiwn, a fyddai'r berthynas â UKRep yn newid. Nododd Jos Gallacher fod gan WEC berthynas waith dda gyda UKRep a bod pob un o swyddogion polisi WEC mewn cysylltiad â swyddog desg priodol UKRep. Nid oedd rhwymedigaeth ar WEC i ddilyn polisïau llywodraeth y DU ond gallai ddatblygu ei bolisïau ei hun. Roedd y ddwy ochr yn deall y gallai anawsterau godi ac nad oedd unrhyw rwystrau i fynegi safbwynt gwahanol. Ar y llaw arall, roedd rhwymedigaeth ar y Cynulliad i ddilyn safbwynt cytûn Llywodraeth y DU. Dywedodd y Cadeirydd bod yr ymagwedd lobio hon yn angenrheidiol yn sgîl prinder y bobl yn cynrychioli Cymru ar lawr gwlad ym Mrwsel (chwe pherson o'u cymharu â thua 100 o gynrychiolwyr sector cyhoeddus a phreifat ar gyfer Iwerddon).

2.7 Nododd yr aelodau gan fod y strategaeth lobio wedi'i llunio yn dilyn ymgynghori â phartneriaid WEC, ei bod wedi'i datblygu gan ystyried y safbwyntiau o ran blaenoriaethau cyflwynwyr gwasanaeth. Byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gymharu'r safbwyntiau hyn â safbwyntiau cynrychiolwyr ECOSOC, Pwyllgor y Rhanbarthau a'r ASE a oedd hefyd yn mynychu'r Pwyllgor. Roedd hefyd yn bwysig sicrhau perthynas dda gyda phwyllgorau pwnc y Cynulliad fel y gellir bwydo eu safbwyntiau hwy hefyd i'r broses.

2.8 Dywedodd George Wright y dylid ystyried y rhaglen waith ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill Llywyddiaeth Sweden ar lywodraethu. Roedd llawer o strwythurau'r UE yr un peth â'r strwythurau a oedd ganddo pan oedd chwech o aelod-wladwriaethau. Pe ehangwyd, byddai'r DU yn colli un o'i chomisiynwyr, roedd maint y senedd bellach wedi'i bennu a'r holl drefniadau yn cael eu rhoi ar waith gydag un gwendid amlwg sef y ffordd y byddai'r rhanbarthau yn cael eu cynrychioli. Gwnaed cynigion er mwyn rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r rhanbarthau.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Opsiynau ar gyfer gweithgaredd y pwyllgor yn y dyfodol**
**Papur: EUR-02-01(p.4)**

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Clerc i amlinellu'r papur ar weithgareddau'r Pwyllgor yn y dyfodol. Eglurodd y Clerc bod hanfod y papur wedi'i gynnwys yn y 9 opsiwn a amlinellwyd ar y diwedd. Roedd argymhelliad 3 ('gwneud cais i Brif Weinidog Cymru ddarparu adroddiadau blynyddol ac adroddiadau ad hoc i'r Pwyllgor yn dilyn rhyddhau rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd yn nodi materion o arwyddocâd posibl sydd o fewn cyfrifoldeb pob un o Weinidogion y Cynulliad') gan y Cynulliad yn cyfateb â strategaeth lobio WEC. Byddai'n galluogi i'r pwyllgor gael safbwynt systemataidd gan y swyddogion ar yr hyn a oedd yn bwysig ac i fwydo'r wybodaeth honno i'r pwyllgorau pwnc. Gellid cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd.

3.2 Roedd dau newid arfaethedig i Reolau Sefydlog a oedd yn cwmpasu cymryd cyfrifoldeb dros faterion nad oedd y pwyllgorau pwnc am fynd ar eu trywydd ac ehangu cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys materion allanol. Roedd argymhelliad hefyd yn gwahodd y Pwyllgor i nodi materion i'w datblygu i'w hystyried yn fanwl. Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gyflwyno sylwadau ar y cynigion hyn.

3.3 Yn gyffredinol croesawodd yr aelodau'r cynigion a gwnaed yr awgrymiadau canlynol:

- Gellid sefydlu is-grwpiau yn cynnwys aelodau o bob plaid i ddatblygu materion i'w hystyried ymhellach ac i gyflwyno adroddiad i'r pwyllgor llawn. Byddai hyn yn golygu y gellir neilltuo mwy o amser i faterion o'r fath.
- Gellid gofyn i'r rheini â gwahoddiadau sefydlog i'r pwyllgor gynhyrchu adroddiadau byr ar ddatblygiadau yn eu maes ar gyfer pob cyfarfod.
- Gellid ei gwneud yn ofynnol i Gadeiryddion pwyllgorau pwnc fynychu'r pwyllgor unwaith y flwyddyn er mwyn rhoi adroddiad ar weithgareddau yn eu pwyllgorau. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod materion Ewropeaidd yn cael eu hymgorffori ar draws pob maes pwnc.
- Roedd angen ymagwedd fwy systemataidd ar y Pwyllgor tuag at ei waith. Ymddangosai bod strategaeth WEC yn gosod fframwaith yn hyn o beth. Er mwyn nodi pwysigrwydd y gwaith dilynol, byddai angen i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bob chwe wythnos.
- Roedd materion megis ehangu a'r Euro yn hanfodol bwysig i'r Pwyllgor eu hystyried. Efallai y dylid gwahodd siaradwyr o Dasglu'r Euro i wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor unwaith eto. Roedd cysylltiadau allanol hefyd yn bwysig iawn ac efallai y gellid gwahodd y Comisiynydd Chris Patten i fynychu cyfarfod yn y dyfodol.
- Er gwaethaf y problemau ymarferol, roedd yn hanfodol gwneud ymdrech i amserlennu cyfarfod fel y gallai'r ASE fynychu. Efallai y byddai'n briodol cynnal un o gyfarfodydd y Pwyllgor ym Mrwsel unwaith y flwyddyn.

3.4 Nododd George Wright ei bod yn amhosibl i aelodau gael eu hysbysu'n llawn parthed yr holl faterion ger bron y Pwyllgor ond y byddai gwybodaeth fanwl am faterion penodol wedi'i darparu gan swyddogion yn eu galluogi i wneud argymhellion rhesymegol i'r Cynulliad.

3.5 Roedd y Cadeirydd o'r farn bod y papur yn ymdrechu i gyflawni craidd yr hyn yr oedd y rhan fwyaf o bobl am ei gyflawni allan o Ewrop ac i fewn i Ewrop a'i fod yn cynnig ffyrdd i'w gyflawni. Roedd yn atgyfnerthu'r dulliau a'r gallu i weithredu. Yn gryno roedd yn helpu i bennu blaenoriaethau ac amcanion polisi yr UE yn flynyddol, dylai ddatblygu a chydlynu amcanion polisi'r Cynulliad ac archwilio effeithiolrwydd strwythurau'r Cynulliad wrth atgyfnerthu polisïau ac arferion yr UE. Cynigiodd y Cadeirydd y gellid adlewyrchu trafodaethau mewn drafft terfynol o'r naw argymhelliad ac y gellid ei ddosbarthu i'r aelodau er mwyn sicrhau bod pawb yn cytuno bod y diwygiadau yn adlewyrchiad cywir o safbwyntiau'r Pwyllgor.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor ar Faterion Ewropeaidd**
**Papur: EUR-02-01(p.5)**

4.1 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gyflwyno sylwadau ar adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor a fyddai'n cael ei drafod gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn ym mis Mehefin. Byddai fersiwn terfynol o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor. Awgrymodd yr aelodau y dylai'r adroddiad gynnwys adroddiadau ar gynrychiolwyr Pwyllgor y Rhanbarthau a chyfarfodydd EC-UK a chynnwys adran yn edrych i'r dyfodol yn adlewyrchu'r trafodaethau yn y cyfarfod hwn. Gallai'r

aelodau hefyd roi adborth ysgrifenedig ar y drafft pe dymunent.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Cyngres Rhanbarthau Ymylol a Morwrol (CPMR)**
**Cyflwyniad: Stig Ostdahl, Llywydd, a Xavier Gizard, Ysgrifennydd Cyffredinol y CPMR**
**Papur: EUR-02-01(p.6)**

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Stig Ostdahl, Llywydd y CPMR na fu'n bresennol ar ddechrau'r cyfarfod. Gwahoddodd ef a Mr Gizard i amlinellu gwaith eu sefydliad.

5.2 Diolchodd Mr Ostdahl i'r Pwyllgor am y cyfle i gyflwyno'r CPMR iddynt. Eglurodd ei fod yn hanu o'r Ffindir ond o gymuned leiafrifol Swedaidd 500 kilometr i'r gogledd o Helsinki. Fe'i hetholwyd yn Llywydd ar y CPMR ym mis Hydref 2000. Roedd yn dasg wirfoddol ond aruthrol. Roedd gan y Gyngres 131 o aelodau rhanbarthol mewn 20 o wledydd. Fe'i sefydlwyd yn 1973 yn St Malo gan y Llydäwyr a oedd o'r farn y byddai rhan i'r rhanbarthau yn Ewrop ryw ddiwrnod. Lleolwyd y sefydliad yn Rennes ac ymunodd rhanbarth Mr Ostdahl yn 1996. Roedd yn un o'r sefydliadau rhyng-ranbarthol mwyaf effeithlon yn Ewrop.

5.3 Eglurodd Mr Gizard er bod gan y CPMR 131 o aelodau nad oedd unrhyw gynrychiolaeth o Lwcsembwrg na Awstria. Er bod rhannau eraill o'r DU wedi'u cynrychioli, nid felly Cymru. Roedd y Gyngres yn cynrychioli 150 miliwn o breswylwyr ar 45% o arwyneb Ewrop. Roedd gan y CPMR bum Comisiwn: Arch yr Iwerydd, y Môr Baltig, yr Ynysoedd, Môr y Canoldir a Môr y Gogledd. Ar 11 a 12 Mehefin, byddai Comisiwn newydd, y Balcanau, yn cael ei sefydlu mewn ymgais i ailennyn sefydlogrwydd.

5.4 Roedd y CPMR yn cynnal cynulliad cyffredinol unwaith y flwyddyn. Byddai'r cynulliad eleni yn cael ei gynnal ar 20 a 21 Medi ym Mhortiwgal. Roedd swyddfa wleidyddol gydag un cynrychiolydd ac un dirprwy gynrychiolydd ar gyfer pob aelod. Roedd gan yr Ysgrifenyddiaeth Gyffredinol 16 o aelodau o staff yn Rennes, un ym Mrwsel ac un yn Porto gydag ysgrifenyddiaeth weithredol ar gyfer pob un o'r pum Comisiwn. Nod y sefydliad oedd datblygu cydweithrediad rhyng-lywodraethol mewn meysydd penodol ar gyfer pob Comisiwn daearyddol.

5.5 Roedd Comisiwn Arch yr Iwerydd yn ymestyn o Andalucia i'r Alban gydag Arlywydd Galicia yn bennaeth arno. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar gymorth INTERREG 3B i'r Comisiwn hwn a gwnaed cais am 120 miliwn o Euros ar gyfer y cyfnod 2001 i 2007. Roedd Gwlad yr Haf yn gweithio ar faterion diwylliannol o fewn Arch yr Iwerydd a Chernyw ar faterion yn ymwneud â physgodfeydd.

5.6 Cynhaliwyd gweithgareddau gwleidyddol ac economaidd y CPMR ar sail cydweithrediad, prosiectau gwella, lobio a negodiadau gyda'r UE ac aelod-wladwriaethau unigol. Ar y lefel Ewropeaidd roedd yn weithgar iawn gyda'r GE a pharatoadau ar gyfer Llywyddiaeth Gwlad Belg. Byddai'n mynychu cyfarfod Pwyllgor y Rhanbarthau ar 15 a 16 Tachwedd yn Liege a byddai'n cyflwyno mandad o'r rhanbarthau ar gyfer yr IGC nesaf. Yn ystod yr wythnos yn dechrau 9 Ebrill 2001, byddai'r CPMR yn cyhoeddi gwybodaeth ar yr hyn a wnaed ganddo hyd yn hyn mewn perthynas â llywodraethu. Byddai

hyn yn dangos cyfreithlondeb, atodoldeb a democratiaeth. Ym Mehefin 2000, mynychodd y Gyngres y seminar cyntaf ar y Papur Gwyn ar Lywodraethu yn Lisbon a byddai'n sefydlu swyddfa wleidyddol arbennig ar lywodraethu o fis Gorffennaf ymlaen.

5.7 Ym maes cynllunio arbennig, y CPMR oedd yr unig sefydliad rhyng-ranbarthol a wahoddwyd i gymryd rhan mewn Persbectif Datblygiadau Arbennig Ewropeaidd yn Potsdam ym Mai 1999. Gofynasant am fwy o gydweithrediad economaidd a chymdeithasol, mwy o ddatblygiad cynaliadwy a chynrychiolaeth fwy cytbwys o'r rhanbarthau. Bu'r CPMR yn rhan o negodiadau ar gyfer 75 o brosiectau ERDF ar gydweithrediad rhyng-ranbarthol. Yn yr Agenda 2000 gwnaethant gais ar gyfer 12 o brosiectau INTERREG 3B yn gofyn am lefel dda o gyllideb y cronfeydd strwythurol. Roedd y sefydliad wedi cyhoeddi ei gyfraniad i'r gwaith o ddiwygio polisi rhanbarthol ar gyfer 2001 i 2003 gan nodi bod yn rhaid i'r polisi gwmpasu pob rhanbarth o fewn yr UE. Cymerodd ran hefyd mewn astudiaeth o luosganoliaeth gyda 6 o wladwriaethau gyda'r nod o gyflawni datblygiad mwy cytbwys yn y diriogaeth Ewropeaidd fel na fyddai rhan Orllewinol Ewrop yn dod yn gymharol fwy cyfoethog yn dilyn ehangu. Byddai angen cydlyniad tiriogaethol mewnol neu byddai gormod o bobl yn cymryd rhan yn yr un prosiectau. Byddai polisi cydlyniad newydd yn golygu mwy o arian a gwell cydbwysedd rhwng canol Ewrop a'r rhanbarthau.

5.8 Roedd y CPMR hefyd yn ymwneud ag anelu at ddatrys problemau sy'n effeithio ar y rhanbarthau. O ran trafnidiaeth roedd yn ymwneud â datblygu Papur Gwyn a diwygiadau i'r rhaglen Rhwydwaith Traws Genedlaethol yn 2004. O ran ymchwil bu'n trafod tiriogaethu'r sffêr ymchwil Ewropeaidd ym mis Chwefror gyda Chyfarwyddiaeth Gyffredinol berthnasol y GE ac roedd wrthi'n ymgyrchu dros ran amlycach i'r rhanbarthau yn y 6ed Dogfen Fframwaith ar Ymchwil a Datblygu. Roedd yn ymwneud â'r Gymdeithas Rheoli Ardaloedd Arfordirol Rhyngwladol a fyddai'n cyfarfod ar 30 Ebrill i drafod datblygiad cynaliadwy. Ar 28 Mehefin yn Bordeaux byddai'n cyflwyno papur i Franz Fischler ar ddyfodol polisïau yn ymwneud â physgodfeydd. Ei nod oedd sicrhau y byddai haen gyntaf ohiriedig y cynigion Ewropeaidd ar ddiogelwch morwrol yn cael ei mabwysiadu. Yn 2002 byddai'r CPMR yn cynnal ymgynghoriad ymhlith y rhanbarthau ar ddiwygio CAP.

5.9 Nododd y Cadeirydd mai egwyddor gyffredinol mentrau'r Cynulliad oedd osgoi rhoi'r cyfrifoldeb dros ddatblygiadau Ewropeaidd i'r canolfannau arferol. Byddai unrhyw beth a fyddai'n helpu i ledaenu'r safbwyntiau hyn yn hytrach na chanolbwyntio ar ardal unigol a oedd ond yn cyfrif am chwarter daearyddiaeth Ewrop yn cael ei groesawu. Yn y dyfodol, gobeithiai y byddai hyn yn digwydd yn naturiol yn hytrach na drwy wneud iddo ddigwydd.

5.10 Cododd yr aelodau amheuon am y pwyntiau canlynol:

- Diffyg cynrychiolaeth o Gymru ac Iwerddon yn yr amlinelliad a roddwyd gan Mr Gizard ac eithrio sôn am Galway a Chaerdydd (y Cyngor Sir). Bu anawsterau wrth nodi'r bobl briodol i gysylltu â hwy yn Iwerddon. Yng Nghymru, bu diffyg lefel ranbarthol cyn datganoli ond dylai bellach fod yn bosibl dod o hyd i'r partneriaethau rhanbarthol priodol i gysylltu â hwy. Gellid ystyried awdurdodau lleol neu lywodraeth ranbarthol leol fel y lefel yn union o dan y

wladwriaeth.

- Diffyg sôn am y sector ynni. Nid oedd unrhyw beth yn cael ei wneud yn y sector ynni ar hyn o bryd heblaw gan Gomisiwn yr Ynysoedd oherwydd diffyg arbenigedd yn y maes hwn.
- Roedd y pwyslais ar gyfleoedd ar INTERREG yn bwysig iawn yn arbennig gan nad oedd Cymru wedi manteisio i'r eithaf ar ei photensial o ran trafnidiaeth forol.
- Dull y CPMR o gyflawni ei waith. Nododd Mr Ostdahl fod y cynulliad cyffredinol yn cyfarfod unwaith y flwyddyn, fod y swyddfa wleidyddol yn cynnal 3 neu 4 cyfarfod y flwyddyn a bod 3 neu 4 cyfarfod ym Mrwsel hefyd. Roedd hyn yn ei ymrwymo am tua 30 diwrnod y flwyddyn. Roedd y rhanbarth cartref yn talu costau teithio a chynhaliaeth eu cynrychiolwyr a'r rhanbarth gwadd yn talu costau cyfieithu. Ffynhonnell bwysicaf y CPMR o incwm oedd y ffi aelodaeth ac o ganlyniad gallai weithredu'n annibynnol. Roedd cynrychiolaeth ar ddwy lefel: lefel wleidyddol yr aelodau etholedig a lefel dechnegol y gweithgorau sef y ffynhonnell arbenigedd. Dewis pob rhanbarth oedd a fyddai ei gynrychiolwyr yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat.

5.11 Roedd yr aelodau o'r farn bod achos cryf iawn dros atgyfnerthu sefyllfa Cymru fel rhanbarth ymylol drwy ddod yn aelod o'r CPMR ond roedd angen gwybodaeth arnom ar y goblygiadau ariannol. Roedd y Cynulliad wedi derbyn gwahoddiadau i ymuno â'r AER hefyd a byddai'n ddefnyddiol cael papur yn nodi pa sefydliad fyddai o'r budd mwyaf i Gymru a'r costau cysylltiedig.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EUR-01-01(min)**

6.1 Cytunodd yr aelodau ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

6.2 Gofynnwyd a allai cofnodion yn y dyfodol gynnwys rhestr o bwyntiau gweithredu er mwyn gallu cyfeirio atynt yn hawdd.

6.3 Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm.

**Pwyntiau ar gyfer gweithredu neu ystyriaeth bellach**

<u>Fforwm Ewropeaidd Cymru</u>

Dymunai'r Pwyllgor sicrhau parhad Fforwm Ewropeaidd Cymru. Gofynnwyd am ymatebion gan arweinwyr y pleidiau ar gynigion ar gyfer ei ddyfodol i'w hystyried gan y Pwyllgor.

<u>Llywodraethu</u>

Nododd Des Clifford y byddai'n cynhyrchu papur safbwynt ar Lywodraethu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai cyn i'r Comisiwn baratoi ei Bapur Gwyn.

<u>Gweithgaredd y Pwyllgor yn y Dyfodol</u>

Bydd y Clerc yn ailddrafftio’r naw argymhelliad y cytunwyd arnynt yn fras o ran gweithgaredd y Pwyllgor yn y dyfodol yng ngoleuni trafodaeth y Pwyllgor ac yn eu dosbarth i’r aelodau i’w cywiro.

Adroddiad Blynyddol

Bydd yr Adroddiad Blynyddol drafft yn cynnwys adroddiadau ar gyfranogiad Pwyllgor y Rhanbarthau a chynrychiolwyr ECOSOC a chyfarfodydd Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd y DU. Bydd yr aelodau yn anfon unrhyw adborth pellach at y Clerc.

CPMR ac AER

Bydd y swyddogion yn paratoi papur i’r Pwyllgor ar y costau a’r buddiannau a ddeuai i ran y Cynulliad pe byddai’n ymuno â’r CPMR ac AER.